

Dydd Mercher 24 Gorffennaf 2019

Annwyl Mr Johnson,

Ysgrifennaf atoch ar ran fy mhlaid – Plaid Cymru – ond hefyd ar ran pobl Cymru. I bobl Cymru, bydd y degawd diwethaf wedi ei ddiffinio fel degawd o fethiant ac addewidion toredig di-rif gan Lywodraeth Prydain. Droeon mae'r Ceidwadwyr wedi gwneud cyfres o addewidion i bobl Cymru dim ond i'w torri heb hyd yn oed ymddiheuriad am eu siomi.

Ym maniffesto eich plaid yn 2015, bu ichi addo cwblhau trydanu rheilffordd de Cymru, a hynny er mwyn dod â'n hisadeiledd rheilffordd ofnadwy i mewn i'r unfed ganrif ar hugain. Wedi blynyddoedd o oedi, canslwyd y prosiect, gan adael Cymru fel y genedl olaf yng ngorllewin Ewrop heb un filltir o reilffordd trydan a hynny mewn oes sydd wedi mynd rhagddi.

Addawodd yr un maniffesto i gyflawni gwaith pŵer morlyn llanw cyntaf y byd yn Abertawe – prosiect uchelgeisiol a fyddai'n gweld Cymru'n arwain y ffordd i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd drwy egni glân arloesol. Ond canslwyd hynny hefyd – eto yn amddifadu Cymru rhag buddsoddiad hollbwysig, bosib drawsffurfiol.

Addawodd hefyd rhoi rhagor o gyfrifoldeb i'r Cynulliad Cenedlaethol, sef yr hyn a bleidleisiodd pobl Cymru drosto yn sylweddol mewn refferendwm yn 2011. Yn lle cadw at yr addewid hynny, rydym wedi gweld Llywodraeth Geidwadol yn benderfynol o dynnu pwerau dros amaeth a pholisi rhanbarthol yn ôl – dim ond er mwyn 'cymryd rheolaeth yn ôl' ar gyfer system San Steffan sydd heb afael ar bethau.

Nawr, Mr Johnson, mae gennych gyfle i brofi eich bod yn wahanol i'ch rhagflaenywyr; i brofi eich bod chi, nid fel nhw, yn poeni am bobl Cymru. Ond tra eich bod yn parhau i fod yn barod i adael yr Undeb Ewropeaidd heb fargen, mae unrhyw honiad gennych eich bod yn poeni am Gymru neu ei phobl yn gwbl noeth.

Cymru fydd un o gleifion cyntaf Brexit heb fargen. Bydd yn peryglu swyddi a chyflogau yn ogystal, yn wir, â ffordd byw y bobl rwyf i a'm plaid yn eu cynrychioli. Mae arbenigwyr lu, a hyd yn oed Llywodraeth Prydain ei hun, wedi cadarnhau y byddai'r polisi trychinebus rydych yn bygwth gorfodi arnom yn arwain at ddinistr swyddi gweithgynhyrchu, ffermwyr Cymreig, a'n cymunedau gwledig.

Mae ein heconomi yn fwy dibynnol ar fasnach gyda'r Farchnad Sengl na rhannau eraill o'r DU, ac mae ein diwydiannau yn fwy sensitif i gyfyngiadau posib ar allforio. Bydd cyfuniad o gollod cyllido drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a cholled eu marchnad allforio fwyaf yn arwain at heriau i ffermwyr Cymreig fel na brofwyd erioed o'r blaen. Bydd yn rhaid i nifer ohonynt roi'r gorau i ffermydd sydd wedi bod yn eu teuluoedd ers cenhedloedd. Mae'r perygl mor fawr fel y dywedodd gweinidog yn Nhŷ'r Cyffredin yr wythnos hon y byddai Brexit heb fargen yn cynrychioli'r "risg fwyaf" i amaethyddiaeth yng Nghymru.

Ar ben hyn oll, rydych yn trin bywydau'r sawl sy'n dibynnu ar feddyginiaeth o'r UE, bywoliaethau miliynau o ddinasyddion yr UE sydd wedi ymgartrefu yn y DU, yn ogystal â dinasyddion y DU yng ngweddill Ewrop, gyda dirmyg. Byddwch yn amddifadu pobl ifanc, na gafodd y cyfle i ddweud eu dweud yn 2016, rhag cyfleoedd i fyw a gweithio yng ngweddill Ewrop – cyfleoedd y cawsoch chi yn hawdd.


Mae gennych y pŵer i sicrhau nad yw hynny'n digwydd, i ddodi synnwyr yn ôl i mewn i'n gwleidyddiaeth drwy fod yn onest gyda'r bobl rydych fod i'w cynrychioli. Mae hynny'n golygu ymrwymo i Bleidlais y Bobl gyda'r opsiwn i barhau fel aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd.

Ni allaf ddweud fy mod yn arbennig o obeithiol y byddwch yn talu llawer o sylw i'r llythyr hwn. Nid yw eich sylwadau diweddar fod gormod o lefydd yn 'ein gwlad' ble nad yw rhai pobl yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf yn fy llenwi â hyder y bydd eich gwaith polisi wedi ei ddylunio gydag ystyriaeth i Gymru a'n diwylliant. Na chwaith yw eich sylwadau diweddar am gyllido rhanbarthol yng Nghymru a'r angen am ddylanwad Ceidwadol cryf arno, serch ugain mlynedd o ddatganoli a dau refferendwm yn cadarnhau hawl Cymru dros bwerau datblygu economaidd – a serch hanes eich plaid o amddifadu Cymru rhag y buddsoddiad sydd angen arni i ffynnu.

Mae'r amser am freuddwydio am y tir goleuedig dros y bryn wedi mynd. Rwy'n erfyn arnoch nawr i fod yn onest gyda phobl Cymru ac addo na fyddwch yn gorfodi dinistr Brexit heb fargen arnynt.

Fel arall, mae arnaf ofn y byddwch chi'n cael eich cofio fel y Prif Weinidog mwyaf anghyfrifol mewn cenhedlaeth.

Yn gywir,



Adam Price AC / AM
Arweinydd Plaid Cymru